

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

18 Gorffennaf am 13:30
Canolfan Yr Atom, Caerfyrddin

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Rob James	RJ	Plaid Lafur
Heledd Llwyd	HLL	Swyddog Byd Busnes
Sara Rees	SR	Swyddog Byd Busnes
Swyddogion		
Jasmine Lewis Hovey	JLH	Swyddog Dechrau'n Deg
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyngorydd Peter Hughes-Griffiths. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Wendy Walters, Cyng. Sue Allen, Cyng. Dorian Williams, Noeline Thomas a Gwyneth Ayers.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ar fater dwyieithrwydd Transport Wales. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal Ymchwiliad i'r mater a cyhoeddir adroddiad maes o law. Nodwyd bod y Ford Gron wedi dadorchuddio llechen yn yr Orsaf drên yng Nghaerfyrddin, a'r cyfan yn ddwyieithog.	
3.	Adrodd ar gynnydd y Strategaeth Hybu – Blynnyddoedd Cynnar – Jasmin Lewis-Hovey.	

Nodwyd bod Jasmine yn cymryd lle'r Rheolwr, Noeline, a oedd yn gorfod mynychu cyfarfod gweinidogol.

Diweddariad a throsolwg:

Tanlinellodd bwysigrwydd hybu ddwyieithrwydd – o ran ei chefnidir personol, os nad oedd ei rhieni wedi dewis addysg Gymraeg iddi hi 20 mlynedd yn ôl byddai hi ddim wedi cael yr holl gyfleoedd mae hi wedi cael.

Nododd fod y Gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo magu plant yn y ddwy iaith ac yn awyddus i ledaenu negeseuon cadarnhaol dros y sir. Y prif ffordd y gwneir hyn yw drwy ddsbarthu'r daflen 'Bod yn Ddwyieithog' i gymaint o rieni a phosib. Yn ogystal, darparir blychau o adnoddau Cymraeg i'w defnyddio yn y lleoliadau gofal plant Saesneg.

Ceir perthnasau cadarnhaol gyda sefydliadau fel *Cymraeg i Blant a Mudiad Meithrin*. Mae'r 'Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd' yn rhannu gwybodaeth am *Clwb Cwtsh, Cymraeg i Blant* ayb i roi gwybodaeth i rieni a chyfleoedd am gefnogaeth i fagu plant yn ddwyieithog.

Dechrau'n Deg: Mynychodd 25 o leoliadau ddiwrnod hyfforddi gyda *Cymraeg i Blant*, i rannu arfer dda a rhoi cymorth ymarferol ar batrymau iaith ayb i arweinwyr y lleoliadau.

Nodwyd fod 100% o dîm cynghori a chefnogi Dechrau'n Deg yn medru'r Gymraeg ac felly'n medru rhoi sylwadau a chymorth ymarferol i'r lleoliadau ar eu defnydd o'r Gymraeg.

Nodwyd bod 10/25 o leoliadau Dechrau'n Deg yn rhai cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys un newydd a fydd yn agor ym Mhorth Tywyn ym mis Tachwedd 2019.

Mae'r Gwasanaeth yn hyrwyddo prosiect 'Camau', sef cwrs Cymraeg i ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o wasanaeth Dechrau'n Deg. Ceir Arweinydd iaith yn y swyddfa yn Morfa i sicrhau ein bod yn glynu wrth y Safonau. Cafwyd cyflwyniad gan yr uned Bolisi i 4 tîm o fewn Dechrau'n Deg ar y Safonau, y Canllawiau sydd ar y fewnrwyd, ac ar hyrwyddo'r Gymraeg ymysg teuluoedd.

Rydym yn bwriadu codi'r lefel sgil iaith 'Iaith a Chwarae' er mwyn codi proffil yr iaith. Mae *Cymraeg i Blant* yn awyddus i gysylltu gyda'n tîm bydwragedd i drosglwyddo'r negeseuon am fagu plant yn ddwyieithog, ac mae 'Bod yn Ddwyieithog' yn cael ei ychwanegu i fagiâu *Dechrau Da* i'w

	<p>dosbarthu yn y cyfnodau allweddol gyda'r cyntaf yn y gwiriad 6 wythnos er mwyn pwysleisio pwysigrwydd dechrau'r ddwy iaith o'r dechrau.</p> <p>Nodwyd bod yr adnoddau hyfforddi yn ein rhaglenni rhianta yn tueddi i ddod o America, ond fod y Gwasanaeth yn pwysleisio pwysigrwydd dwyieithrwydd a rhoi technegau ymarferol i rieni yn y sesiynau.</p> <p>Diolchodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths am yr holl waith ac fe nododd bwysigrwydd rhoi'r dewis i rieni cyn gynhared a phosib.</p> <p>Sylwadau:</p> <p>Nodwyd bod anghysondeb darpariaeth ysgolion yn dair oed yn achosi colli siaradwyr Cymraeg bach i'r system Saesneg lle mae bylchau, er enghraifft yn Hendy Gwyn lle nad ydy'r Cylch yn darparu'r 10 awr o addysg, mae'n anodd pontio rhwng y Cylch ac addysg Gymraeg.</p> <p>Holwyd a oedd modd gwybod i sicrwydd bod darpariaeth gofal plant Cymraeg yn wirioneddol cyfrwng Cymraeg. Eglurwyd bod adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn darparu'r wybodaeth go iawn am gyfrwng darpariaeth gofal plant ond nad oedd neb yn rheoleiddio cyfrwng iaith darparwyr gofal plant preifat fel y cyfryw.</p> <p>Gofynnodd PHG i Jasmine i ddymuno'n dda i'r staff a diolch am y gwaith.</p>	
<p>4.</p>	<p>Diweddariad ar waith Y Gymraeg ym myd Busnes – Heledd Llwyd a Sarah Jones</p> <p>Mae'r prosiect ar fin dechrau ar 3ydd blwyddyn o dargedau. Rhannodd y swyddogion nifer o astudiaethau achos o'r sir ac ystadegau o'r newidiadau ers i'r prosiect ddechrau.</p> <p>Rhennir y gwaith gyda busnesau i 3 cham: Cam cychwynnol, datblygu a parhad.</p> <p>O'r busnesau y mae'r prosiect yn ymwneud a nhw, dyma'r ffigurau cynydd:</p> <p>Roedd 4.4% o'r yn defnyddio Cymraeg ar eu cyfrifon Facebook. Cynyddodd hwn i 16% ac yna i 60% yn ystod y ddwy flynedd.</p> <p>O ran gwefannau, roedd 2% yn ddwyieithog, cynyddodd i 8.3%, ac yn rhannol Gymraeg cynyddodd o 20% i 60%.</p> <p>O ran Cyfarchiad cyntaf, cynyddodd o 15% i 60%</p> <p>O ran Arwyddion eilaidd gwelwyd cynnydd o 13% i 80%</p> <p>Defnyddio'r cyfieithu 64%, 79, 100% wedi defnyddio'r gwasanaeth.</p>	

Gwelwyd Astudiaeth Achos 'Carm Alarms' oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth ar gyfer gwirio postiau Facebook a 'Howards, Caerfyrddin' oedd wedi dod yn fwy dwyieithog. Newidiwyd y logo i un dwyieithog. Crëwyd safle glanio ar eu gwefan, hysbyseb dwyieithog ar S4C, cynnwys logo iaith gwaith. Negeseuon Facebook yn nodi bod y busnes yn 'hapus i gyfathrebu'n ddwyieithog'.

Roedd 'Y Pantri Glas yn Llandeilo', oedd gyda 2 berchennog di-Gymraeg wedi dod i ofyn am gymorth, wedi dewis enw Cymraeg, a datblygu popeth yn ddwyieithog, gan gynnwys system bwyso a gwefan dwyieithog. Roedden nhw'n enghraifft o'r ffaith nad oes angen bod yn rhugl i werthfawrogi gweithio'n ddwyieithog.

Roedd 'Meithrinfa Dechrau Disglair' yn barod yn ddwyieithog ond eisiau cynyddu'r ddarpariaeth. Nawr, mae eu cytundebau a ffurflenni cofrestru'n ddwyieithog. Drwy gydweithio gyda'r Fenter, cafwyd sesiwn gyda'r staff i atgyfnerthu'r eirfa Gymraeg oedd gyda nhw yn barod.

Roedd perchennog 'Coppertop Crafts' yn Rhydaman yn rhugl ond yn ddihyder. Cam cyntaf oedd defnyddio'r bathodyn iaith gwaith. Mae hi wedi cynyddu eu hyder ac mae hi wedi bod ar 'Prynhawn Da'. Mae hi wedi newid yr enw i fod yn ddwyieithog.

Roedd 'DreTwt', sef Canolfan chwarae rôl i blant, yn hyderus i roi negeseuon dwyieithog ar Trydar ond ddim ar arwyddion ayb. Prawf ddarllenwyd yr arwyddion a chyfieithwyd taflen. Y bwriad yw i gyfieithu'r wefan ac mae'r busnes wedi cael sylw cadarnhaol ar eu defnydd o'r Gymraeg yn barod.

Sylwadau:

Nodwyd pwysigrwydd adnabod gwerth busnes yr iaith, er enghraifft fod nifer o gwsmeriaid yn fwy cyfforddus i drafod prynu ceir yn Gymraeg. Cytunwyd bod llawer o hanesion tebyg o werthwyr ceir.

Holwyd a ydy busnesau'n gofyn am gymorth neu ydy'r swyddogion yn mynd atyn nhw. Eglurwyd bod *Busnes Cymru* a *Croeso Cymru* yn cyfeirio pobl atyn nhw, ond eu bod hefyd yn galw o ddrws i ddrws a bod yr adnoddau yn gymorth gyda hyn.

Holwyd ynglŷn a'r ffigur o 60% ac oedd modd mynd y tu hwnt iddo. Eglurwyd bod yr agweddau yn bositif yn gyffredinol yn y sir ond bod rhai yn anochel ddim yn gweithredu ar eu bwriadau da.

Nodwyd bod rhwydwaith newydd yng Nghastell Newydd Emlyn oedd yn dangos sut mae presenoldeb cyson y swyddog yn medru newid agweddau am y gorau.

	<p>Diolchodd LLE i'r swyddogion am gydweithio gyda'r Cyngor Sir hefyd drwy fynychu'r cyfarfodydd busnes. Gobeithio bydd mwy o gyfle i gyfeirio busnesau atoch chi drwy ein gwaith adfywio yn y dyfodol.</p>	
5.	<p>Fframwaith Rheoleiddio</p> <p>Eglurodd LLE ein bod angen dechrau edrych ar effaith ein gwaith, a Hunan reoleiddio ein cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.</p> <p>Nodwyd bod gan Gyngor Rhondda Cynon Taf swyddog o fewn y tîm awdit sy'n dewis is-adrannau benodol ac yn edrych arnyn nhw am gyfnod dwys.</p> <p>Eglurwyd bod yr Arweinwyr iaith yn gwneud rywfaint o'r gwaith hyn a byddai modd ei ffurfioli, neu byddai modd i ni ofyn i'r adran Awdit i gynyddu'r sylw maent yn rhoi i gydymffurfiaeth y Cyngor i'r Safonau.</p> <p>Awgrymwyd y byddai modd cychwyn ar y gwaith wrth ddefnyddio ymchwiliadau presennol y Comisiynydd ar ffurflenni'r Adran Gynllunio a Budd-daliadau a Threth y Cyngor gan gynnal asesiad o weithdrefnau'r ddwy adran.</p> <p>Gofynnwyd am y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gwaith hwn. Eglurwyd fod mesur effaith y Strategaeth hybu yn cyfrannu tuag at y Ddeddf Llesiant yn fwy na chydymffurfiaeth y Safonau.</p> <p>Cytunwyd i ymchwilio ymhellach a chynnig camau gweithredu yn ôl i'r Panel i'w cytuno.</p>	LLE a MJ
6.	<p>Unrhyw fater arall</p> <ul style="list-style-type: none"> - Nodwyd bod Aled Roberts, y Comisiynydd, yn ymweld gyda'r Cyngor ar Awst 1. - Cytunwyd y byddai gwaith papur y Panel ar Mod.gov erbyn y cyfarfod nesaf 	
7.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>12.9. 2019</p> <p>Yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin</p>	LLE